WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Keith Griffiths
Pencadlys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 642A2013 |
| **Dyddiad** | 28 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Keith

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 16 Hydref 2013, rhoddais fy marn ar ba un a oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar ba un a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur, er bod lle i gryfhau ei drefniadau ymhellach

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei Adroddiad Cyflawni Blynyddol 2012-13 (*Annual Delivery Report 2012-13)* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir y modd y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;

- mae'r Adroddiad yn rhoi manylion am weithgarwch y Cyngor, a oedd yn ceisio cyflawni amcanion gwella'r Cyngor, ac mae'n disgrifio ei berfformiad mewn modd teg a chytbwys; fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder ynghylch lefel y gwelliant yr oedd y Cyngor yn ceisio'i gyflawni yn cyfyngu ar y graddau y mae'r Adroddiad yn gwerthuso cynnydd;
- tynnwyd sylw dinasyddion at yr Adroddiad a'r crynodeb, er nad ar gyfer y cyhoedd y bwriadwyd yr Adroddiad yn bennaf, ac nid yw'r crynodeb yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i alluogi dinasyddion i roi adborth ynghylch perfformiad y Cyngor;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am dueddiadau o ran perfformiad a chymariaethau a fesurwyd gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol, er bod lle i fynegi'n fwy clir beth y mae'r wybodaeth honno'n ei olygu a beth y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ei sgîl; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys llawer o wybodaeth am gydweithredu, sy'n rhan annatod o waith adrodd ynghylch cynnydd yng nghyswllt pob blaenoriaeth ar gyfer gwella.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Nid wyf yn awgrymu unrhyw gynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor wrth weithredu'r cynigion a bennwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad y Cyngor dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth